



# Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd

## Senedd Commission Audit & Risk Assurance Committee

### **Blaenraglen Waith 2022**

---

#### **GAEAF – 14 Chwefror 2022**

##### **Archwiliad mewnol**

- trafod y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23
- adolygu cynnydd y gwaith Archwilio Mewnol
- trafod yr adroddiadau Archwilio Mewnol diweddaraf

##### **Archwiliad allanol**

- trafod canfyddiadau newydd sy'n deillio o waith Archwilio Allanol interim/yn ystod y flwyddyn, a dulliau'r Archwilwyr Allanol o ran eu gwaith; a rhoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu ynglŷn ag unrhyw faterion y bydd angen mynd i'r afael â hwy yn ystod gweddill y flwyddyn
- trafod unrhyw gamau sydd eto i'w cymryd o ran gwaith archwilio mewnol ac allanol y flwyddyn flaenorol a rhoi sylwadau ar unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â hwy

##### **Llywodraethu'r Comisiwn**

- diweddariad corfforaethol ar y coronafeirws
- y diweddaraf am y gyllideb
- trafod yr adolygiad o bolisiau cyfrifyddu
- trafod yr adolygiad o systemau cyfrifyddu
- diweddariad ar y system Gyllid
- trafod yr Adroddiad ar Risgiau Corfforaethol
- archwiliad beirniadol o un risg sydd eisoes wedi'i nodi, neu risg neu fater sy'n dod i'r amlwg (cynllunio corfforaethol)
- gwariant gyda chyflenwyr Cymreig
- adborth ar drafodaethau ym Mhwyllgor Cyngori'r Comisiwn ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu (REWAC) (*os yw'r Pwyllgor wedi cyfarfod*)
- crynodeb o'r amrywiadau

## **Y Pwyllgor Busnes**

- adborth ar bresenoldeb yn Fforwm Cadeiryddion ARAC (*os yw'r fforwm wedi cyfarfod*)
- blaenraglen waith

## **Sesiwn breifat**

- trafod effeithiolrwydd perthynas y Pwyllgor ag archwilio allanol

## **CYFARFOD Y GWANWYN – 29 Ebrill 2022**

### **Archwiliad mewnol**

- trafod Adroddiad Blynyddol a Barn yr adran Archwilio Mewnol ar gyfer 2021-22
- trafod cydymffurfiad y Siarter Archwilio Mewnol a'r adran Archwilio Mewnol â Safon Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus
- trafod adroddiad yr adran Archwilio Mewnol ar Dwyll
- trafod yr adroddiadau Archwilio Mewnol diweddaraf

### **Archwiliad allanol**

- trafod canfyddiadau a chyngor sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu, ynghylch cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon drafft i'r Comisiwn
- adolygiad o'r Protocol Cydweithio
- rhannu gwybodaeth am astudiaethau ac adroddiadau ehangach y sector cyhoeddus

### **Llywodraethu'r Comisiwn**

- diweddariad corfforaethol ar y coronafeirws
- y diweddaraf am y gyllideb
- y wybodaeth ddiweddaraf am y polisiâu ar dwyll a chwythu'r chwiban
- y wybodaeth ddiweddaraf ar seiberddiogelwch (i gynnwys cyflwyniad byr)
- trafod yr Adroddiad ar Risgiau Corfforaethol
- archwiliad beirniadol o un risg sydd eisoes wedi'i nodi, neu risg neu fater sy'n dod i'r amlwg
- trafod Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (bydd yr eitem hon yn cynnwys yr adroddiadau y cytunir arnynt ddwywaith y flwyddyn ar achosion o dorri'r rheolau ynghylch gwybodaeth)

- rhoi cyngor ar Adroddiad Blynyddol drafft y Comisiwn a'r Datganiad Llywodraethu ar gyfer 2021-22
- adborth ar drafodaethau ym Mhwyllgor Cyngori'r Comisiwn ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu (REWAC) (*os yw'r Pwyllgor wedi cyfarfod*)
- crynodeb o'r amrywiadau

### **Y Pwyllgor Busnes**

- trafod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu
- blaenraglen waith

### **Sesiwn breifat**

- trafod effeithiolrwydd perthynas y Pwyllgor â'r Swyddog Cyfrifyddu

## **CYFARFOD CYNNAR YR HAF – 15 Mehefin 2022**

### **Archwiliad mewnol**

- adolygu'r cynnydd o ran gweithgarwch Archwilio Mewnol (gan gynnwys adolygu'r cynnydd o ran rhoi'r argymhellion a'r camau gweithredu ar waith ers adroddiadau blaenorol)
- trafod yr adroddiadau Archwilio Mewnol diweddaraf

### **Archwiliad allanol**

- trafod y farn Archwilio Allanol (Adroddiad ISA 260) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22

### **Llywodraethu'r Comisiwn**

- diweddariad corfforaethol ar y coronafeirws
- y diweddaraf am y gyllideb
- trafod yr Adroddiad ar Risgiau Corfforaethol
- archwiliad beirniadol o un risg sydd eisoes wedi'i nodi, neu risg neu fater sy'n dod i'r amlwg
- trafod Adroddiad Blynyddol a Datganiad Cyfrifon 2021-22 y Comisiwn (i argymhell llofnodi'r cyfrifon), i gynnwys:
  - y datganiadau ariannol llawn
  - Datganiad Llywodraethu terfynol y Swyddog Cyfrifyddu, yn cynnwys yr adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol
  - Adroddiad terfynol ISA 260

- adborth ar drafodaethau ym Mhwyllgor Cyngori'r Comisiwn ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu (REWAC) (*os yw'r Pwyllgor wedi cyfarfod*)
- crynodeb o'r amrywiadau

### **Y Pwyllgor Busnes**

- cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu
- ystyried amseriad a chynnwys arolwg o effeithiolrwydd y Pwyllgor
- blaenraglen waith

## **CYFARFOD HWYR YR HAF – 8 Gorffennaf 2022**

### **Archwiliad mewnol**

Cyfarfod byrrach i drafod unrhyw faterion sy'n codi, edrych tua'r gorwel yn strategol a blaenraglen waith y Pwyllgor.

### **Llywodraethu'r Comisiwn**

- adolygu Fframwaith Sicrwydd cyffredinol y Comisiwn
- adolygu'r modd y mae'r Comisiwn yn rheoli risgiau newid hinsawdd

### **Y Pwyllgor Busnes**

- edrych tua'r gorwel yn strategol er mwyn llywio blaenraglen waith y Pwyllgor

## **CYFARFOD YR HYDREF – 21 Tachwedd 2022**

### **Archwiliad mewnol**

- adolygu'r cynnydd o ran gweithgarwch Archwilio Mewnol (gan gynnwys adolygu'r cynnydd o ran rhoi'r argymhellion a'r camau gweithredu ar waith ers adroddiadau blaenorol)
- trafod yr adroddiadau Archwilio Mewnol diweddaraf
- adolygu canllawiau Trysorlys EM/canllawiau eraill ar gyfer Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg

### **Archwiliad allanol**

- trafod canfyddiadau newydd sy'n deillio o waith Archwilio Allanol interim/yn ystod y flwyddyn, a dulliau'r Archwilwyr Allanol o ran eu gwaith; a rhoi cyngor i'r

Swyddog Cyfrifyddu ynglŷn ag unrhyw faterion y bydd angen mynd i'r afael â hwy yn ystod gweddill y flwyddyn

- trafod yr adroddiadau Archwilio Allanol diweddaraf a'r camau a gymerwyd i roi'r argymhellion ar waith
- trafod unrhyw gamau sydd eto i'w cymryd o ran gwaith archwilio mewnol ac allanol y flwyddyn flaenorol a rhoi sylwadau ar unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â hwy
- adborth o drafodaethau ynghylch gwersi a ddysgwyd rhwng archwilio allanol a swyddogion mewn perthynas ag archwilio cyfrifon 2021-22
- trafod y strategaeth Archwilio Allanol arfaethedig ar gyfer 2022-23 (gan gynnwys y ffi archwilio os yw'n hysbys)
- rhannu gwybodaeth am astudiaethau ac adroddiadau ehangach y sector cyhoeddus a sut maent yn effeithio ar Gomisiwn y Senedd

### **Llywodraethu'r Comisiwn**

- diweddariad corfforaethol ar y coronafeirws
- y diweddaraf am y gyllideb
- diweddariad ar seiberddiogelwch
- adroddiad ynghylch achosion o dorri rheolau gwybodaeth (dwywaith y flwyddyn)
- trafod yr Adroddiad ar Risgiau Corfforaethol
- archwiliad beirniadol o un risg sydd eisoes wedi'i nodi, neu risg neu fater sy'n dod i'r amlwg
- crynodeb o'r amrywiadau
- adborth ar y trafodaethau ym Mhwyllgor Cyngori'r Comisiwn ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu (REWAC)

### **Y Pwyllgor Busnes**

- y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd am gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i Gomisiwn y Senedd
- ystyried canlyniadau arolwg o effeithiolrwydd y Pwyllgor
- adolygu cylch gorchwyl y pwyllgor
- blaenraglen waith

## Sesiwn breifat

- trafod effeithiolrwydd perthynas y Pwyllgor â'r adran Archwilio Mewnol

## **GAEAF – Chwefror 2023 – dyddiad i'w gadarnhau**

*\*dyddiadau cyfarfodydd pwyllgor y Comisiwn a'r Senedd i'w dwyn i ystyriaeth rhag ofn bod gwrthdaro*

### **Archwiliad mewnol**

- trafod y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23
- adolygu cynnydd y gwaith Archwilio Mewnol
- trafod yr adroddiadau Archwilio Mewnol diweddaraf

### **Archwiliad allanol**

- trafod canfyddiadau newydd sy'n deillio o waith Archwilio Allanol interim/yn ystod y flwyddyn, a dulliau'r Archwilwyr Allanol o ran eu gwaith; a rhoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu ynglŷn ag unrhyw faterion y bydd angen mynd i'r afael â hwy yn ystod gweddill y flwyddyn
- trafod unrhyw gamau sydd eto i'w cymryd o ran gwaith archwilio mewnol ac allanol y flwyddyn flaenorol a rhoi sylwadau ar unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â hwy

### **Llywodraethu'r Comisiwn**

- y diweddaraf am y gyllideb
- trafod yr adolygiad o bolisiau cyfrifyddu
- trafod yr adolygiad o systemau cyfrifyddu
- trafod yr Adroddiad ar Risgiau Corfforaethol
- archwiliad beirniadol o un risg sydd eisoes wedi'i nodi, neu risg neu fater sy'n dod i'r amlwg
- adborth ar drafodaethau ym Mhwyllgor Cynghori'r Comisiwn ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu (REWAC) *(os yw'r Pwyllgor wedi cyfarfod)*
- crynodeb o'r amrywiadau

### **Y Pwyllgor Busnes**

- adborth ar bresenoldeb yn Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Risg
- blaenraglen waith

## **Sesiwn breifat**

- trafod effeithiolrwydd perthynas y Pwyllgor ag archwilio allanol